## Prif Swyddog, Lle a Thwf
## Cyngor Sir y Fflint

Mae Sir y Fflint yn gyngor unedol blaenllaw yng Nghymru a'r mwyaf yng Ngogledd Cymru. Rydym yn Gyngor blaengar sydd wedi ymrwymo i adfywio cynaliadwy, a thwf economaidd.

Mae gennym gyfle gwych i ddylanwadu ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, cefnogi cymunedau a busnesau i ffynnu a sicrhau bod Sir y Fflint yn parhau i fod yn lleoliad gwych i fyw a gweithio ynddo.

Gydag ymddeoliad deiliad presennol y swydd yn fuan, rydym yn chwilio am arweinydd strategol gyda sgiliau pobl rhagorol a hanes o arwain newid diwylliannol, rheolaeth ariannol gadarn a sicrhau llywodraethu effeithiol. Fe fyddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda phrofiad o waith cydweithredol a phartneriaeth, o fewn sefydliad mawr a chymhleth.

Yn rhan o uwch dîm agos ac effeithiol, fe fyddwch yn helpu i ddatblygu ffocws corfforaethol cryf a diwylliant corfforaethol cydlynol ar draws yr Awdurdod. Yn gyfrifol am yrru cynllunio, adfywio, twf economaidd a chynaliadwyedd.

Os ydych chi'n arweinydd cryf, gweladwy ac ysbrydoledig sydd ag angerdd dros ddarparu gwasanaethau i gefnogi pobl yn Sir y Fflint, fe garem ni glywed gennych chi.

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd a beth sydd gan Sir y Fflint i'w gynnig neu i wneud cais ewch i: www.siryfflint.gov.uk/PrifSwyddog

Dyddiad cau: 26/05/2025
Cyflog: £96,665 i £108,642

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Sharon Carney ar 01792 002129

1996 - 2021 25 MLYNEDD O WASANAETH YEARS OF SERVICE

Gyda'r gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL